CYFIEITHIAD

Y Cynghorydd Dilwyn Morgan
Cadeirydd Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Annwyl Gynghorydd Morgan,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 20 Ionawr i Ganghellor y Trysorlys ynghylch polisïau cyllidol y Llywodraeth.

Dyletswydd pennaf y Llywodraeth yw gwarchod diogelwch economaidd a chenedlaethol, gan ein galluogi i ymestyn cyfleoedd i bobl sy'n gweithio ar bob cam o'u bywydau. Mae'r Llywodraeth yn gweithio drwy gynllun economaidd hir-dymor i sicrhau adferiad, ac mae cyfrifoldeb cyllidol wedi caniatáu gweithredu'n ariannol i gefnogi'r galw yn yr economi law yn llaw ag atgyweirio'r sector ariannol. Cefnogwyd hyn gan ddiwygio'r ochr gyflenwi er mwyn darparu cynnydd cynaliadwy mewn safonau byw.

Mae adferiad economaidd y DU bellach wedi'i sefydlu, ond pery rhai problemau i'w trin. Mae'r diffyg yn parhau'n uchel yn ôl safonau rhyngwladol, ac mae cynhyrchiant yn parhau'n rhy isel. Mae'r adferiad economaidd byd-eang yn parhau'n ansefydlog ac mae'r risgiau o economi'r byd, o'r marchnadoedd sy'n ymddangos yn eu mysg, yn dangos yr angen i barhau i drwsio'r economi i sicrhau y gall y DU ymdrin â risgiau o dramor.

Fe wnaeth Datganiad yr Hydref a'r Adolygiad Gwariant nodi'r camau y mae'r Llywodraeth yn bwriadu eu cymryd er mwyn: cael gwared â'r diffyg a rhedeg gwarged cyffredinol erbyn diwedd tymor y Senedd, gan gynyddu gwariant ar y GIG yn Lloegr; blaenoriaethu buddsoddiad yn nyfodol hir-dymor Prydain; diwygio a moderneiddio gwasanaethau cyhoeddus; sicrhau adferiad cenedlaethol yng ngwir ystyr y gair; a chreu'r amodau cywir ar gyfer twf cryf ledled y DU.

Fe wnaeth yr Adolygiad Gwariant gadarnhau cefnogaeth barhaus y Llywodraeth i economi Cymru hefyd. Bydd cynnydd o dros £900 miliwn mewn arian cyfalaf i Lywodraeth Cymru dros bum mlynedd – cynnydd o dros 16% mewn termau go iawn, er mwyn cefnogi buddsoddiad mewn prosiectau sy'n bwysig i economi Cymru. Mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno arian gwaelodol i Gymru, sy'n gwarantu y bydd arian DEL y pen a ddarperir i Lywodraeth Cymru yn parhau ar 115% neu uwch o wariant Llywodraeth y DU cyffelyb yn Lloegr ar gyfer cyfnod yr Adolygiad Gwariant hwn. Law yn llaw â hyn, bydd y penderfyniad i warchod yr Heddlu yn golygu mewn termau go iawn y bydd gan luoedd ledled Cymru yr arian y maent ei angen i warchod y cyhoedd.

Fe wnaeth yr Adolygiad Gwariant gyflawni ymrwymiad y Llywodraeth i gynyddu gwariant amddiffyn a diogelwch dros y pum mlynedd nesaf hefyd, gan wario 2% o GDP ar amddiffyn a 0.7% o Incwm

Gwladol Crynswth ar Gymorth Datblygu Swyddogol (ODA). Y DU yw'r unig wlad i fodloni'r ddau ymrwymiad hyn, gan gadarnhau ei rôl arweiniol wrth greu byd mwy sefydlog a diogel. Mae'r penderfyniadau buddsoddi y mae'r Llywodraeth yn eu gwneud yn golygu y bydd y DU yn parhau i gael ei gwarchod gan fyddin arloesol, diogelwch domestig cryf, amddiffynfeydd seiber cadarn a dylanwad byd-eang. Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi strategaeth ODA newydd, sy'n nodi sut y bydd yn cwrdd â'i haddewidion i dlodion y byd a rhoi datblygiad rhyngwladol wrth galon ein diogelwch cenedlaethol a'n polisi tramor.

Fel y byddwch yn ymwybodol, mae cyfrifoldeb am nifer o wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn gorwedd gyda Llywodraeth Cymru – fel y mae cyfrifoldeb am setliad ariannu Llywodraeth leol yng Nghymru. Fe'ch anogaf felly, yng ngoleuni cefnogaeth Llywodraeth y DU i Gymru, i gysylltu â Llywodraeth Cymru a gofyn iddyn nhw sut maen nhw'n bwriadu defnyddio'u harian a'u pwerau i ddarparu gwasanaethau gwell i bobl Cymru.

Diolch am gymryd amser i gysylltu â'r Trysorlys gyda'ch pryderon.

Yn gywir,

GREG HANDS